

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Newidiadau i Reoli Perygl Llifogydd a Draenio Tir



### Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf yn egluro'r gyfraith sy'n ymdrin â nifer o'r systemau rheoleiddiol presennol ar gyfer yr amgylchedd, gan gynnwys draenio tir a rheoli perygl llifogydd.

### Sefydlu'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Bydd y Ddeddf yn sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. O wneud hynny, bydd yn dileu unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli fel bod gan y Pwyllgor hwn rôl gynghori ehangach. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar y peryglon a'r manteision ehangach sy'n ymwneud â rheoli llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a hynny ar gyfer pob ffynhonnell o lifogydd, e.e. llifogydd o ddŵr wyneb, prif afonydd, llifogydd arfordirol ac erydu arfordirol.

Mae'r pwyllgor newydd yn disodli Rheoli Perygl Llifogydd Cymru. Mae'n symleiddio trefn atebolrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru drwy ddileu'r dyblygu gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd wrth i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Rheoli Perygl Llifogydd Cymru graffu ar gyllideb a rhaglen Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hefyd yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar amrywiaeth ehangach o faterion sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol yn hytrach na rhoi cyngor i Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig.

## Draenio Tir

Mae'r Ddeddf yn gwneud dau newid mewn perthynas â Byrddau Draenio Mewnol (Cyfoeth Naturiol sydd bellach yn arfer y swyddogaethau hynny):

- **Diddymu gofynion hysbysebu penodol** – bydd y Ddeddf yn dileu'r gofynion a roddir ar Cyfoeth Naturiol Cymru i hysbysebu mewn papurau newydd lleol a'r London Gazette. Bydd hynny'n rhoi'r hyblygrwydd i Gyfoeth Naturiol Cymru ddewis sut i fynd ati i hysbysebu a chyfathrebu ynghylch yr hysbysiadau a'r gweithdrefnau perthnasol. Yn ogystal â sicrhau bod y brif gynulleidfa yn cael ei thargedu, bydd dilyn y drefn honno ar gyfer hysbysebu yn gost-effeithiol.
- **Apeliadau yn erbyn ardollau arbennig** – Apeliadau yn erbyn ardollau arbennig – bydd y Ddeddf yn galluogi awdurdodau lleol i apelio i Lywodraeth Cymru os ydynt o'r farn bod yr ardollau a godir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn afresymol.

Mae darpariaethau pellach yn y Ddeddf yn caniatáu i asiantwyr Gweinidogion Cymru gynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod y tirlfeddiannwr neu'r perchennog wedi cymryd camau i ddatrys sefyllfa mewn perthynas â draenio tir, yn unol â gorchymyn a wnaed gan y Tribiwnlys Tiroedd Amaethyddol. Mae hon yn ffordd o sicrhau bod y gwaith o adfer systemau draenio wedi'i wneud, sydd, yn ei dro, yn caniatáu i dir sydd wedi'i ddraenio'n wael gael ei adfer, ac yn sicrhau bod y ffosydd draenio yn gweithio'n dda.

Mae hyn yn helpu i leddfu llifogydd gan sicrhau bod tir ffermio yn cael ei ddraenio'n ddigonol fel bod modd ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd.

## Yr amserlen

Disgwylir y bydd y rheoliadau i ddethol aelodau a gofynion gweithdrefnol ar gyfer y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael eu llunio fel y bydd modd gwneud trefniadau cyn gynted â phosibl wedi i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Bydd hyn yn caniatáu i'r pwyllgor newydd ddechrau ar y gwaith cyn gynted ag y bydd y pwyllgor presennol wedi'i ddiddymu.

Mae'r darpariaethau yn ymwneud â draenio tir yn dod i rym ddau fis wedi i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol.

## Rhagor o wybodaeth

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016. Gallwch ddarllen rhagor am y Ddeddf ei hun ar wefan Llywodraeth Cymru:

[www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd](http://www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd)

Gallwch hefyd danysgrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:

[NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk](mailto:NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk)